



Cael y gorau gan eich cyflenwr nwy neu drydan

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cael gwerth am arian gan bwy bynnag sy'n cyflenwi nwy a thrydan i chi ...

Darllenwch y mesurydd bob tro

Bob tro byddwch yn derbyn bil, gwiriwch eich mesurydd. Mae'r rhan fwyaf o filiau wedi eu selio ar amcangyfrifon, ac mae'r rhain yn gallu bod yn wallus iawn. Os yw'ch bil wedi ei oramcangyfrif yna byddwch yn talu am danwydd nad ydych wedi ei ddefnyddio; os yw'r amcangyfrif ar y bil yn rhy isel, yna ni fyddwch yn talu digon ac mae'n bosib y byddwch yn wynebu dyled fawr pan fydd y mesurydd yn cael ei ddarllen .

Ceisiwch osgoi mesuryddion rhagdalau os gallwch

Mae mesuryddion rhagdalau yn gweithio ar sail talu wrth fynd. Gallwch ychwanegu arian at gerdyn neu allwedd mewn man talu a'i osod yn y mesurydd sy'n ychwanegu'r credyd sydd ar gael i chi. Mae rhai pobl yn hoffi mesuryddion rhagdalau gan eu bod yn cynorthwyo gyda



Yn ystyried newid?

chyllido ac oherwydd nad ydynt yn caniatáu i chi adeiladu dyled fawr (fel arfer mae cyfyngiad o £5 ar gredyd argyfwng). Fodd bynnag, gall credyd redeg allan ar amseroedd anghyfleus a gallai fod yn anodd i chi gyrraedd man talu.

Dydy cwsmeriaid rhagdalau ddim yn elwa o daliadau ar amser na gostyngiadau eraill, felly fel arfer mae'n werth newid i fesurydd credyd sy'n cael ei filio. Mae'n bosib y gallai eich darparwr godi tâl arnoch am newid eich mesurydd, felly ystyriwch newid i ddarparwr all wneud hyn am ddim.*

Ydych chi ar y tariff gorau?

Os nad yw'ch cyflenwr presennol wedi'ch rhoi ar yr opsiwn (neu'r 'tariff') rhataf mae'n bosib eich bod yn talu mwy nac sydd yn rhaid i chi am eich nwy a'ch trydan. Gallwch eu ffonio i wirio hyn; bydd y rhif ar eich bil ynni. Bydd rhai cyflenwyr yn cynnig mesurydd clyfar i chi fel rhan o'ch cytundeb. Bydd hyn yn darparu darlenniadau mesurydd cywir yn awtomatig i'ch cyflenwr.

Os ydych yn byw mewn eiddo ar rent ac mae'ch enw ar y bil yna mae gennych hawl i newid i gyflenwr ynni o'ch dewis chi. Yr unig eithriadau i hyn yw os taw enw eich landlord sydd ar y bil neu os ydych yn ceisio newid y mesurydd yn yr eiddo. Os yw'ch landlord neu eich



CSE has a partnership with energyhelpline to make switching easier. See www.cse-switch.org.uk

Cont ▶

* See our factsheets on **Prepayment meters** and **Smart Pay as you Go meters** at www.cse.org.uk/advice

asiantaeth gosod tai yn gwrthod gadael i chi newid, a hynny'n afresymol, gallwch gysylltu â Chyngor ar Bopeth am gyngor.

Debyd uniongyrchol

Fel arfer bydd cwsmeriaid sy'n barod i dalu drwy ddebyd uniongyrchol yn talu llai am eu hynni a ganddyn nhw mae'r dewis ehangaf o opsiynau talu. Ni all cyflenwyr ynni gynnig gostyngiadau i gwsmeriaid sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol bellach ond gallant gadw'r opsiynau talu mwyaf cystadleuol i'r bobl sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol. Weithiau bydd cyflenwyr yn gostwng graddfeydd uned ar brisiau ar gyfer cwsmeriaid debyd uniongyrchol. Mae talu drwy ddebyd uniongyrchol hefyd yn rhannu cost yr ynni yn gyson dros y flwyddyn, gan osgoi biliau ynni drud yn ystod y gaeaf.

Mae'n bwysig darllen y mesurydd yn gyson a gwirio'ch biliau gyda debyd uniongyrchol hefyd. Seilir ffigyrau talu debyd uniongyrchol bob amser ar amcangyfrifon o faint o ynni rydych wedi ei ddefnyddio a chaiff y rhain eu goramcangyfrif a'u tanamcangyfrif yn aml. Dim ond unwaith bob tua dwy flynedd y mae'n rhaid i'ch cyflenwr geisio darllen eich mesurydd felly er mwyn osgoi biliau uchel neu greu credydau mawr, anfonwch ddarlleniad mesurydd bob tro byddwch yn derbyn datganiad. Dylech adolygu eich debyd uniongyrchol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Ynni Deuol

Mae prynu eich nwy a'ch trydan gan yr un cyflenwr yn gyfleus ond nid dyma'r opsiwn rhataf bob amser. Os oes gennych un cyflenwr nwy ac un gwahanol ar gyfer trydan yna gallwch wirio gyda'r ddau er mwyn



Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Os oes 250,000 neu fwy o gwsmeriaid gan eich cyflenwr ynni, mae'n rhaid iddynt gynnig y **Gostyngiad Cartrefi Cynnes**. Dyma ad-daliad ar y fil trydan cartrefi, sydd werth £140 ar gyfer gaeaf 2014-15. Mae ar gael i gwsmeriaid sy'n derbyn elfen credyd gwarant y Credyd Pensiwn.

Mae cyflenwyr hefyd yn cynnwys y gostyngiad hwn i grŵp ehangach o gwsmeriaid, ac mae gan bob cyflenwr ei feini prawf cymhwyso penodol ei hun. Felly, os ydych yn derbyn unrhyw fath o fudd-dal neu os ydych ar incwm isel, mae'n werth galw eich cyflenwr i wirio eich bod yn gymwys. Gweler

www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme.



gweld pwy fyddai'n cynnig y cytundeb gorau i chi ddod yn gwsmer ynni deuol. Fodd bynnag, er mwyn dod o hyd i'r tariff rhataf, mae'n well defnyddio gwasanaeth cymharu annibynnol a gwirio prisiau gan gyflenwyr ar wahân yn ogystal ag opsiynau ynni deuol.



Tariff ar-lein

Gall newid i dariff ar-lein arbed 10% ychwanegol i chi oddi ar eich bil. Yr unig beth fydd yn newid yw y byddwch yn derbyn eich biliau ar e-bost yn hytrach na thrwy'r post

Cytundebau penodedig

I gael y costau ynni rhataf bydd angen i chi wirio gwefannau cymharu prisiau annibynnol bob blwyddyn. Fel arfer mae'r cyfraddau gorau ar gael drwy dariff penodedig tymor byr. Os nad ydych yn awyddus i orfod gwirio'r farchnad bob blwyddyn neu os ydych yn credu eich bod yn debygol o anghofio newid ar ddiwedd y cyfnod sefydlog yna mae'n bosib nad dyma'r opsiwn gorau ar eich cyfer chi. Yn hytrach, efallai yr hoffech ystyried tariff pris penodedig tymor hir. Mae'r rhain yn aml yn cynnig pris cystadleuol am hyd at 4 blynedd, er mae'n bosib y byddai'n rhaid i chi dalu ffioedd canslo os ydych am adael y cytundeb o fewn y cyfnod hwnnw.

Beth am newid i gyflenwr newydd?

Yn ôl rheoleiddiwr y diwydiant ynni, Ofgem, gallech arbed £130 y flwyddyn drwy newid cyflenwr. Mae'r broses yn hawdd iawn: dim ond galwad ffôn a / neu lythyr fel arfer. Yn aml byddwch yn gwneud arbedion gan fod y cwmni ynni newydd eisiau eich denu a byddant yn cynnig cytundeb da i chi.

Defnyddiwch un o'r gwasanaethau newid a chymharu prisiau a restrir isod - mae'r rhain wedi eu hachredu o dan God Hyder Ofgem:

www.energyhelpline.com | **0800 074 0745**

www.uswitch.com | **0808 1783 492**

www.moneysupermarket.com | **0845 345 5708**

www.theenergystore.com | **0845 330 7247**

www.simplyswitch.com | **0800 011 1395**

www.energylinx.co.uk | **0800 849 7077**

www.myutilitygenius.co.uk | **0203 468 0461**

www.switchgasandelectric.com | **0871 711 7771**

www.ukpower.co.uk | **0808 250 7341**

www.unravelit.com | **0800 862 0021**


www.which.co.uk/switch | **01992 822 867**

www.runpathdigital.com/gas-electricity | **online only**

www.Quotezone.co.uk | **online only**

Mae'n bwysig cymryd i ystyriaeth taw dros dro'n unig y bydd cynnig gan eich cyflenwr newydd, ac ymhen amser y byddwch yn cael eich rhoi ar dariff drytach. Dylech wirio hyn cyn ymrwymo i newid.

OUNwaith y byddwch wedi newid nid oes rhaid i'ch hen gyflenwr ad-dalu unrhyw greddyd y bu i chi ei adael ar ôl ar eich hen gyfrif, os nad ydych yn gofyn yn benodol amdano. Gallwch hawlio credyd yn ôl o hen gyfrif waeth pa mor bell yn ôl oedd hynny. Os ydych yn credu y dylai hen gyflenwr roi arian yn ôl i chi wedi i chi newid cyflenwr ewch i www.myenergycredit.com.



Pa wybodaeth fydd ei angen arna i?

Byddwch angen rhoi pump darn o wybodaeth i unrhyw gwmni neu gyflenwr wrth newid fel y gallant gyfrifo'r tariff gorau i chi cyn newid. Sef:

- 1 Eich cyflenwr ynni cyfredol
- 2 Eich tariff ar hyn o bryd
- 3 Faint o ynni y byddwch yn ei ddefnyddio mewn kWh – mae'n well cael y ffigurau hyn o ddatganiad blynyddol yn hytrach na bil chwarterol os oes gennych un
- 4 Sut ydych chi'n talu am eich ynni
- 5 Eich rhif cyflenwi trydan ac/neu nwy

Rhifau cyfeirnod

Mae gan bob cyflenwad nwy a thrydan gyfeirnod unigryw.

Ar gyfer nwy, y '**Meter Point Reference Number**' yw hwn (MPRN). Ar gyfer trydan, fe'i gelwir y '**Meter Point Administration Number**' (MPAN).

Noder nad yw'r rhain yr un fath â'ch rhif cyfrif cwsmer na'ch rhif cyfres mesurydd (sydd ar eich mesurydd).

Os ydych yn newid cyflenwr, sicrhewch eich bod bod yn rhoi eich MPAN ac MPRN i'ch cyflenwr newydd pan fyddwch yn newid neu yn ystod y cyfnod o bythefnos wedyn pan gewch newid eich meddwl. Bydd hyn yn eich cynorthwyo i osgoi unrhyw gamgymeriadau neu unrhyw broblemau yn ystod y broses o newid.

Bydd eich MPAN a'r MPRN wedi eu hargraffu ar hen fil neu ddatganiad, neu bydd eich hen gyflenwr yn gallu rhoi gwybod i chi beth ydynt.

Cofrestr Gwasanaethau o Flaenoriaeth



Os oes gennych anabledd neu broblem iechyd hirdymor sy'n golygu eich bod yn dibynnu ar gyflenwad trydan cyson e.e. ar gyfer peiriant ocsigen (gweler y llun), lifft grisiau neu declyn codi i'r bath, dylech gysylltu â'ch Gweithredwr Rhwydwaith Rhanbarthol. Dyma'r cwmni sydd berchen ar y gwifrau ac sy'n rhedeg y gwifrau yn eich ardal chi (yn y rhan fwyaf o ardaloedd y De Orllewin, Western Power Distribution ydyw.)

Gallant eich rhoi ar Gofrestr Gwasanaethau o Flaenoriaeth fel y byddwch yn derbyn cymorth argyfwng os bydd toriad yn y pŵer, fel darparu generadur i chi neu anfon y Groes Goch i'ch cynorthwyo.

Bydd gan eich cyflenwr ynni hefyd Gofrestr Gwasanaethau o Flaenoriaeth. Bydd bod ar y gofrestr yn golygu eich bod yn cael cymorth fel:

- Darlleniadau mesurydd chwarterol er mwyn i chi gadw'ch biliau dan reolaeth
- Gwiriadau diogelwch nwy am ddim
- Symud eich mesurydd i le sy'n haws i chi ei gyrraedd
- Rheolyddion arbennig ar gyfer offer a mesuryddion
- Cynllun gwarchod cyfrinair er mwyn atal galwyr ffug
- Trefnu anfon eich biliau at ffrindiau, perthnasau neu ofalwyr
- Gwasanaethau i gwsmeriaid byddar neu sydd â nam ar eu golwg
- Rhybudd o flaen llaw os bydd y cyflenwad yn cael ei dorri



Syniadau ar gyfer gostwng biliau ynni



Rhowch ddiwrnod yn yr haul i'ch dillad a rhowch seibiant i'ch peiriant sychu dillad. Mae dillad wedi'u sychu yn yr awyr iach yn teimlo'n wych, ac mae dyddiau sychu yn y gaeaf, hefyd.

Dysgwch nhw'n ifanc! Anogwch eich plant i ddiffodd teganau trydan a goleuadau nad ydynt yn eu defnyddio. Fe fyddant yn dod i ddeall arbed ynni yn fuan.



Gosodwch atalwyr drafft ar eich drws ffrynt, blwch llythyrau a thwl allwedd, a chaewch eich llenni wrth iddi nosi er mwyn cadw'r gwres i mewn.



Paned o de neu goffi? Dim ond faint o ddŵr yr ydych ei angen ddylech chi ei roi yn y tegell (ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gorchuddio'r elfen fetel ar y gwaelod).



Arhoswch tan fydd gennych chi lond llwyth cyn rhoi'r peiriant golchi llestri neu'r peiriant golchi i fynd. Mae llwyth llawn yn defnyddio llai o ynni (a dŵr) na dau lwyth hanner llawn.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuadau'n cael eu diffodd pan fyddwch yn mynd i'r gwely. Os ydych am oleuo ystafell plentyn neu landin, defnyddiwch olau nos watedd isel.



More energy-saving advice at www.cse.org.uk/advice



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Charity: 298740
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tim Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



For energy advice:

Phone **0800 082 2234**

Email home.energy@cse.org.uk

Web www.cse.org.uk/loveyourhome



www.facebook.com/EnergySavingAdvice



www.twitter.com/cse_homeenergy

Last updated, Feb 2016